Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Adnodd 12

Mae'r adnodd hwn yn darparu rhestr o gwestiynau y gellir eu defnyddio wrth geisio barn plant am yr amseroedd chwarae/egwyl yn yr ysgol.

## Cwestiynau ynghylch amseroedd chwarae yn yr ysgol i blant: (nodwch ystod oedran)

**1. O ran amseroedd chwarae/egwyl yn yr ysgol, pa un o'r canlynol ydych chi’n ei gael mewn diwrnod ysgol arferol?**

- ☐ Egwyl yn y bore
- ☐ Egwyl hir yn ystod amser cinio
- ☐ Egwyl yn ystod y prynhawn ar ôl cinio

**2. Sut ydych chi'n teimlo am yr amser chwarae / egwyl?**

- ☐ Rwyf wrth fy modd ag ef
- ☐ Rwy'n ei hoffi
- ☐ Rwy'n fodlon ag ef
- ☐ Dydw i ddim yn ei hoffi
- ☐ Rwy'n ei gasáu

**3. Beth, os unrhyw beth, ydych chi'n ei <u>hoffi</u> am yr amser chwarae / egwyl?**

***Ticiwch bob un sy'n berthnasol***

- ☐ Mynd i glwb ysgol
- ☐ Bod gyda fy ffrindiau
- ☐ Dewis beth rwyf am ei wneud
- ☐ Gwneud rhywfaint o ymarfer corff / rhedeg o gwmpas
- ☐ Bwyta ac yfed
- ☐ Cael awyr iach
- ☐ Chwarae gemau
- ☐ Ymlacio ar ôl gwersi
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Dim byd
- ☐ Arall (nodwch)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**4. Beth, os unrhyw beth, nad ydych chi'n <u>ei hoffi</u> am yr amser chwarae / egwyl?**

***Ticiwch bob un sy'n berthnasol***

- ☐ Mae gemau pêl yn mynd yn y ffordd
- ☐ Dydw i ddim yn cael chwarae gemau difyr
- ☐ Rwy'n teimlo'n unig
- ☐ Mae rhai disgyblion yn ymddwyn yn wael
- ☐ Nid oes digon o amser i fwyta
- ☐ Nid oes unman i fynd mewn tywydd garw
- ☐ Nid oes digon o le
- ☐ Nid oes unrhyw beth i'w wneud
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Dim byd
- ☐ Arall (nodwch beth)

**5. Ydych chi'n meddwl bod yr egwyl yn ystod amser cinio...?**

- ☐ Yn rhy fyr a dylai fod yn hirach
- ☐ Yr hyd cywir
- ☐ Yn rhy hir a dylai fod yn fyrrach
- ☐ Ddim yn gwybod

**6. Pa mor aml ydych chi wedi colli'r cyfan neu rywfaint o'ch amser chwarae / egwyl?**

- ☐ Mwy nag unwaith yr wythnos
- ☐ Unwaith yr wythnos
- ☐ Ychydig o weithiau y mis
- ☐ Llai aml
- ☐ Byth
- ☐ Ddim yn gwybod

**7. Pam wnaethoch chi golli'r cyfan neu rywfaint o'ch amser chwarae / egwyl?**

- ☐ Roedd yr athrawes yn meddwl fy mod wedi camymddwyn yn y dosbarth
- ☐ Roedd yr athrawes yn meddwl fy mod wedi camymddwyn yn ystod amser egwyl
- ☐ I ddal i fyny gyda gwaith dosbarth / gwaith cartref
- ☐ I fynychu clwb ysgol
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Arall (nodwch)